

Gwasanaeth Deintyddol Gogledd Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Canllawiau Cyfeirio

Fersiwn 1



Bwriad y canllaw hwn yw egluro'r broses gyfeirio a meini prawf derbyn cleifion i Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cyfeirio unigolion at y gwasanaeth hwn.

Pwy all gyfeirio at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol?

Derbynnir cyfeiriadau gan y canlynol yn unig:

- Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol
- Meddygon Teulu
- Arbenigwyr mewn Ysbytai
- Gweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol Eraill

Bydd cyfeiriadau'n cael eu hanfon at dîm cyfeirio canolog y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses cyfeirio, e-bostiwch y llinell gymorth i gael cyngor BCU.NWCDSReferralAdvice@wales.nhs.uk

Gofal Sylfaenol

Cyfeiriadau Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol

Dylid cyflwyno pob cyfeiriad drwy'r system E-gyfeirio.

<https://www.dental-referrals.nhs.wales/cy/>

Sylwer; mae'r cyfrifoldeb am ofal cleifion a gyfeiriwyd yn parhau gyda'r Ymrferwyr cyfeirio tra bod cleifion ar restrau aros. Os oes pryderon am glaf penodol, dylai Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol gysylltu â'r gwasanaeth i dynnu sylw at yr angen brys.

Pob cyfeiriad arall gan lechyd Sylfaenol a Gofal Cymdeithasol

Dylai cyfeiriadau gan bob cyfeiriwr lechyd a Gofal Cymdeithasol arall, gael eu gwneud trwy lenwi'r ffurflen berthnasol ar ddogfen Word yn llawn (Atodiad 1 neu 2), ac yna'i chadw fel dogfen pdf (*yn unol â'r cyfarwyddiadau isod) a'i he-bostio yn ôl i BCU.NWCDSReferralsTeamCentral@wales.nhs.uk

***Sut i gadw dogfen Word fel PDF**

- Ewch i 'File'
- Dewiswch 'Save As'
- Dewiswch 'Save as Type'
- Dewiswch PDF



- Dewiswch 'Save'

Atodiad 1 - Mae'r ffurflen hon ar gyfer cleifion dan 18 oed

Atodiad 2 - Mae'r ffurflen hon ar gyfer cleifion 18 oed a hŷn ac unigolion ifanc 18 i 25 oed sy'n derbyn gofal.

Arbenigwyr mewn Ysbytai

Parhewch i gyfeirio yn ôl eich arfer.

Ni dderbynnir hunan-gyfeiriadau i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

Yn ddelfrydol, dylai pob claf (ac eithrio cleifion Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol) gael eu cyfeirio, yn y lle cyntaf at ofal deintyddol gydag ymarferydd deintyddol cyffredinol. Bydd yr ymarferwyr deintyddol hyn yn gallu cyfeirio cleifion at Wasanaeth Deintyddol Cymunedol BIPBC lle bo hynny'n briodol. Gall hyn fod gyda deintyddfa y maent yn gysylltiedig â hi neu drwy sesiwn mynediad Brys neu Ddi-frys.

Dod o hyd i Ddeintydd GIG lleol

Darperir gwasanaethau deintyddol cyffredinol gan rwydwaith o ddeintyddfeydd ar draws Gogledd Cymru. Nid yw 'cofrestru cleifion' yn digwydd bellach a gall cleifion geisio triniaeth mewn unrhyw ddeintyddfa GIG. Dylai cleifion ddod o hyd i ddeintyddfa sy'n gyfleus iddyn nhw, p'un a'i yw'n agos at eu cartref neu i'w gwaith, a'u ffonio i weld a oes unrhyw apwyntiadau ar gael. Ni fydd gan ddeintyddfeydd y gallu bob amser i dderbyn cleifion GIG newydd neu mewn rhai achosion byddant wedi rhoi'r gorau i ddarparu gofal GIG. Efallai y bydd angen ymuno â rhestr aros neu chwilio am ddeintydd gwahanol sy'n cymryd cleifion newydd y GIG.

Ewch i wefan GIG 111 Cymru am restr o ddeintyddfeydd <https://111.gig.cymru-gwasanaethau lleol>

Ym mha Ardal Ddaearyddol mae'r Gwasanaeth Deintyddol yn cael ei gynnig?

Mae Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol BIPBC yn darparu gofal deintyddol i gleifion sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

Rhaid i gyfeiriad / cod post y claf fod o fewn yr ardal ddaearyddol hon a rhaid ei wirio cyn cyfeirio.

Dod o hyd i'ch awdurdod lleol

[Dod o hyd i'ch awdurdod lleol | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru)



Meini Prawf cyfeirio Cleifion sy'n Oedolion (18 oed a hŷn)

Derbynnir cyfeiriadau ar gyfer oedolion sydd ag ystod o anghenion ychwanegol cymhleth sy'n effeithio'n ddifrifol ar y ddarpariaeth gofal deintyddol.

Gall cleifion sy'n cael eu derbyn ar gyfer triniaeth dderbyn cwrs llawn o driniaeth neu rai elfennau o ofal yn unig (e.e. tynnu dant) ynghyd â gofal gan eu Hymarferydd Deintyddol.

Mae'r Ymarferydd Deintyddol sy'n cyfeirio yn parhau i fod yn gyfrifol am ofal deintyddol brys, cyngor ataliol a galw'n ôl, oni bai y cytunir yn wahanol gyda Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol BIPBC.

Categori	Diffiniad
Wedi'u Cyfaddawdu'n Feddygol neu'n Feddygol Gymhleth	Cleifion â chyflyrau meddygol cymhleth iawn sy'n rhoi'r claf mewn perygl sylweddol o brofi digwyddiadau niweidiol ac sydd angen gofal deintyddol mewn lleoliad cymunedol. Cleifion sydd angen cysylltiad agos ag arbenigeddau meddygol ar gyfer eu gofal deintyddol.
Cleifion ag Anableddau Dysgu Cymedrol i Ddifrifol	Cleifion sydd angen lefel uchel o gefnogaeth a/neu gofal ar gyfer eu gweithgareddau dyddiol, gan gynnwys ymweliadau deintyddol.
Anableddau corfforol	Cleifion y mae eu symudedd / anabledd corfforol angen cyfleusterau arbenigol a / neu sgiliau i reoli gofal y geg. h.y. teclynnau codi, cadeiriau olwyn lledorweddol.
Problemau Iechyd Meddwl	Cleifion sy'n cael diagnosis o broblemau iechyd meddwl y mae tystiolaeth na ellir eu trin mewn lleoliad ymarfer cyffredinol, a bod angen sgiliau ychwanegol arnynt. Gall cleifion dderbyn cwrs cyfyngedig/sengl o driniaeth a chael eu rhyddhau o'r gwasanaeth.
Gorbryder a Ffobia Deintyddol	Cleifion y mae tystiolaeth bod ganddynt ffobia a / neu bryder deintyddol sy'n effeithio ar eu gallu i dderbyn triniaeth ddeintyddol gan Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol. Bydd cleifion yn derbyn un cwrs o driniaeth ac yn cael eu rhyddhau. Gellir cyflwyno ailgyfeiriad yn ôl yr angen.
Namau Gwybyddol	Cleifion â namau gwybyddol sylweddol.
Grwpiau Agored i Niwed Arwyddocaol	Asesir yn unigol.



<p>Cleifion sydd dros derfynau pwysau cadeiriau Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol.</p>	<p>Ar hyn o bryd dim ond cleifion hyd at 25 stôn / 158 kg bydd yn cael eu derbyn. Cofiwch gynnwys pwysau claf yn y cyfeiriad.</p>
<p>Cleifion Bariatrig</p>	<p>Nid oes gan y gwasanaeth hwn unrhyw strwythur i gefnogi'r cleifion hyn ar hyn o bryd. Anfonwch e-bost at y tîm cyfeirio am gyngor ar gyfer cleifion 25 stôn / 158 kg ac uwch,</p>
<p>Triniaeth yn y Cartref</p>	<p>Darperir hyn pan mai ymweliad cartref yw'r ffordd fwyaf priodol o gychwyn / darparu cyfnod gofal.</p>
<p>Unigolyn Ifanc sy'n Derbyn Gofal - 18 i 25 oed</p>	<p>Unigolyn Ifanc sy'n Derbyn Gofal, Cynllun Gofal a Chymorth neu Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth.</p> <p>Disgwylir i gyfeirwyr yn yr achosion hyn fod yn rhagweithiol wrth sicrhau presenoldeb.</p>



Meini Prawf Cyfeirio Cleifion Pediatrig (Dan 18 oed)

Derbynnir cyfeiriadau ar gyfer cleifion pediatrig sydd ag ystod o anghenion ychwanegol cymhleth neu bryder sy'n effeithio'n ddifrifol ar y gallu i ddarparu gofal deintyddol iddynt. Gall plant sy'n cael eu derbyn ar gyfer triniaeth dderbyn cwrs llawn o driniaeth neu elfennau penodol o ofal ar y cyd â'u Hymarferydd Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Ymarferydd Deintyddol sy'n cyfeirio yn parhau i fod yn gyfrifol am ofal deintyddol brys, cyngor ataliol a galw'n ôl, oni bai bod cyfarwyddyd gan Wasanaeth Deintyddol Cymunedol BIPBC bod y claf yn cael ei weld ar sail hirdymor.

Bydd mwyafrif y cleifion pediatrig yn cael eu rhyddhau ar ôl cwblhau cwrs y driniaeth.

Categori	Diffiniad
Wedi'i Cyfaddawdu'n Feddygol neu'n Feddygol Gymhleth	Cleifion â chyflyrau meddygol cymhleth iawn sy'n rhoi'r claf mewn perygl sylweddol o brofi digwyddiadau niweidiol ac sydd angen gofal deintyddol mewn lleoliad cymunedol. Cleifion sydd angen cysylltiad agos ag arbenigeddau meddygol ar gyfer eu gofal deintyddol.
Cleifion ag Anableddau Dysgu Cymedrol i Ddifrifol	Cleifion sydd angen lefel uchel o gefnogaeth a/neu gofal ar gyfer eu gweithgareddau dyddiol, gan gynnwys ymweliadau deintyddol.
Anableddau corfforol	Cleifion y mae eu symudedd / anabledd corfforol angen cyfleusterau arbenigol a / neu sgiliau i reoli gofal y geg. h.y. teclynnau codi, cadeiriau olwyn lledorweddol.
Problemau Iechyd Meddwl	Cleifion sy'n cael diagnosis o broblemau iechyd meddwl y mae tystiolaeth na ellir eu trin mewn lleoliad ymarfer cyffredinol, a bod angen sgiliau ychwanegol arnynt. Gall cleifion dderbyn cwrs cyfyngedig/sengl o driniaeth a chael eu rhyddhau o'r gwasanaeth.
Gorbryder a Ffobia Deintyddol	Cleifion y mae tystiolaeth bod ganddynt ffobia a / neu bryder deintyddol sy'n effeithio ar eu gallu i dderbyn triniaeth ddeintyddol gan Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol. Bydd cleifion yn derbyn un cwrs o driniaeth ac yn cael eu rhyddhau. Gellir cyflwyno ailgyfeiriad yn ôl yr angen.
Namau Gwybyddol	Cleifion â namau gwybyddol sylweddol.
Grwpiau Agored i Niwed Arwyddocaol	Asesir yn unigol.



Cleifion sydd dros derfynau pwysau cadeiriau Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol.	Ar hyn o bryd dim ond cleifion hyd at 25 stôn / 158 kg bydd y cael eu derbyn Cofiwch gynnwys pwysau claf yn y cyfeiriad.
Cleifion Bariatrig	Nid oes gan y gwasanaeth unrhyw strwythur i gefnogi'r cleifion hyn ar hyn o bryd. Anfonwch e-bost at y tîm cyfeirio am gyngor ar gyfer cleifion 25 stôn / 158 kg ac uwch,
Plentyn sy'n Derbyn Gofal / Plentyn ar Gynllun Gofal a Chymorth neu Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth	Disgwylir i gyfeirwyr yn yr achosion hyn fod yn rhagweithiol wrth sicrhau presenoldeb.
Anomaleddau deintyddol eraill	Anomaleddau deintyddol sylweddol a diffygion datblygiadol.
Plant Cyn-Cydweithredol	Pan fydd pryder wedi'i nodi.
Trawma Pediatrig Cymhleth	

Meini Prawf Eithrio Cyfeiriadau

Er mwyn atal cleifion rhag cael eu cyfeirio'n amhriodol at Wasanaethau Deintyddol Cymunedol BIPBC, mae'r tabl canlynol yn dangos y cyfeiriadau cleifion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cyfeirio ac na fyddant yn cael eu derbyn ar gyfer gofal.

Meini Prawf Eithrio Cyfeiriadau
Cyfeiriadau y Tu Allan i'r Ardal. Dim ond cleifion sy'n byw o fewn dalgylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fydd yn gymwys i dderbyn triniaeth. Gweler Atodiad 3 am godau post derbynol.
Cyfeiriadau amhriodol , gan gynnwys gwybodaeth anghyflawn neu annigonol.
Cleifion y gallai Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol eu trin. Cleifion a gyfeiriwyd oherwydd llwyth gwaith deintyddol yn unig.
Cleifion nad yw'r Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol wedi dangos unrhyw ymgais i gynefino/sefydlogi neu drin lle bo hynny'n briodol.
Dylai cleifion sydd wedi'u nodi fel rhai â ffobia neu gorbryder deintyddol gael eu cyfeirio at ymarferydd deintyddol cyffredinol i gael eu hasesu yn y lle cyntaf.



Gweler yr adran 'Dod o hyd i Ddeintydd GIG lleol' uchod.

Cleifion â **chyflyrau meddygol cymhleth ond sefydlog / aml-fferyllol** nad ydynt yn effeithio ar y ddarpariaeth ddeintyddol mewn gofal sylfaenol.

Cleifion sydd angen cael tynnu dant/dannedd, sy'n cymryd bisphosphonates trwy'r geg neu driniaethau mewnwythiennol blynyddol
Cyfeiriwch at Ganllawiau SDCEP "Gofal Iechyd y Geg Cleifion sydd mewn Perygl o ddatblygu Osteonecrosis yr ên sy'n gysylltiedig â Meddyginiaeth" am arweiniad.

Cleifion sy'n cymryd gwrthgeulyddion oni bai bod ceulopathïau eraill yn bodoli.
Cyfeiriwch at Ganllawiau SDCEP "Gofalu am Gleifion Deintyddol sy'n cymryd Gwrthgeulyddion neu Gyffuriau Gwrthblatennau" am arweiniad.

Pa Wybodaeth dylid ei chynnwys yn y Cyfeiriad?

Mae'n rhaid **llenwi'r ffurflenni cyfeirio yn llawn** gyda chymaint o fanylion â phosibl er mwyn sicrhau brysbennu priodol.

Bydd ffurflenni cyfeirio nad ydynt wedi eu llenwi yn iawn yn cael eu dychwelyd neu'n achosi oedi cyn trin claf.

Radiograffau

Pan fo disgwyl rhesymol i wneud, dylid darparu radiograffau priodol o ansawdd uchel ar gyfer cyfeiriadau.

Os na fydd radiograffau wedi'u cynnwys, rhaid nodi pam nad ydynt wedi'u hanfon.

Dylai enw a dyddiad geni'r claf gael eu hanfon gyda'r radiograffau ynghyd a dyddiad y radiograff.

Gweler canllawiau'r FDGP am feini prawf wrth ddewis.

Y broses Gyfeirio

Yn dilyn y broses brysbennu bydd un o'r canlynol yn digwydd:

1. Derbynn y cyfeiriad

- Bydd gohebiaeth gychwynnol (llythyr / e-bost) yn cael ei hanfon at y claf neu ofalwr yn egluro bod y cyfeiriad wedi'i dderbyn a'u bod wedi'u rhoi ar restr aros. Anfonir y wybodaeth yma hefyd at y sawl sydd yn cyfeirio.
- Ni fydd angen i'r claf na'r gofalwr gysylltu â'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol na'r clinig. Bydd y Gwasanaeth yn cysylltu â nhw i drefnu apwyntiad pan fyddan nhw'n gallu gwneud hynny.



- Pan fydd y claf yn cyrraedd brig y rhestr aros, bydd ail ohebiaeth (llythyr / e-bost), yn cael ei hanfon at y claf/gofalwr yn gofyn iddyn nhw gysylltu â'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

Bydd cyfnod o 4 wythnos yn cael ei ganiatáu ar gyfer ymateb; ar ôl hynny bydd y cyfeiriad yn cael ei anfon yn ôl at y cyfeiriwr.

Os bydd cyflwr y claf yn newid, a bod gofyn brysbennu o'r newydd neu ailystyried, cysylltwch â ni.

E-bost: BCU.NWCDSReferralsTeamCentral@wales.nhs.uk

2. **Gwrthod y cyfeiriad** -anfonir at y cyfeiriwr i egluro pam na dderbyniwyd y cyfeiriad.
3. **Cais am wybodaeth goll**- Ni fydd y cyfeiriad yn cael ei brosesu hyd nes y derbynnir digon o wybodaeth.

Rhestrau aros ar gyfer apwyntiad asesu

Mae'r amser y bydd claf yn aros am apwyntiad asesu yn dibynnu ar restrau aros cyfredol.

Taith y Claf

Ar ôl yr apwyntiad asesu, bydd y cleifion hynny sy'n bodloni'r meini prawf cyfeirio yn derbyn cynllun triniaeth a bydd trefniadau priodol yn cael eu gwneud i ymgymryd â'u gofal deintyddol.

Gall y driniaeth hon fod ar gyfer rhai elfennau o'u gofal yn unig, i rai cleifion.

Bydd disgwyl i'r ymarferydd deintyddol sy'n cyfeirio ddarparu gofal deintyddol brys, gofal ataliol a galw'n ôl tra bod y claf ar y rhestr aros ac yn derbyn triniaeth ddeintyddol gan Wasanaeth Deintyddol Cymunedol BIPBC.

Bydd cleifion y canfyddir nad ydynt yn bodloni meini prawf Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol BIPBC yn cael eu rhyddhau gyda chyngor i'r cyfeiriwr.

OEDOLION (18 oed a throsodd) - Cleifion sy'n Methu Mynychu (FTA) unrhyw apwyntiadau

Ar gyfer cleifion sy'n oedolion sy'n methu â mynychu eu hapwyntiad:



- Ar y methiant cyntaf, bydd neges yn cael ei hanfon at y claf (gyda chopi i'r cyfeiriwr) i'w hysbysu bod apwyntiad wedi'i fethu.
Rhoddir pythefnos i'r claf gysylltu â'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i drefnu apwyntiad pellach. Os na chaiff yr apwyntiad ei aildrefnu bydd y claf yn cael ei ryddhau yn ôl i'r cyfeiriwr gwreiddiol.
- Ar yr ail fethiant, bydd claf yn cael ei ryddhau, a bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at y claf a'r cyfeiriwr.
Bydd pryderon ynglyn â diogelu yn cael eu trin yn unol â pholisi lleol.
- Er mwyn ailgyfeirio'r claf bydd angen creu cyfeiriad newydd a bydd y broses cyfeirio yn cychwyn o'r newydd.

PLANT (dan 18 oed ac Unigolion Ifanc 18 i 25 oed sy'n Derbyn Gofal) – Ni Ddaethpwyd Â'r Claf (WNB) i unrhyw apwyntiad

Os na ddaethpwyd â'r claf i'w hapwyntiad, byddant yn cael eu trin yn unol â'r polisi – 'Ni Ddaethpwyd Â'r Claf' lleol.

Proses Rhyddhau

- Bydd mwyafrif y cleifion yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Ddeintyddfa Gyffredinol (GDP) a wnaeth y cyfeiriad ar gyfer gofal ar ôl cwblhau cwrs o driniaeth.
- Anfonir gohebiaeth at bob Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol sy'n cyfeirio'r achos. Bydd copi o'r ohebiaeth hefyd yn cael ei hanfon at y claf er mwyn iddynt fod yn ymwybodol eu bod wedi cael eu rhyddhau a pam mae hyn wedi digwydd.
- Os bydd y claf/gofalwr/ddeintyddfa yn gweld nad yw'r ddeintyddfa gyfeirio bellach yn derbyn cleifion y GIG ac nad yw'r claf yn dod o dan adain y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, bydd y claf yn cael manylion cyswllt gwefan ddeintyddol PBC a fydd yn rhoi manylion deintyddfeydd y GIG sy'n derbyn cleifion newydd.

<https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-iechyd-lleol/deintyddol/>

Mae cleifion yn debygol o gael eu cynghori i roi eu henwau ar restrau aros y Gwasanaeth. Bydd cleifion hefyd yn cael manylion 111 GIG Cymru rhag ofn bod y claf yn dioddef problem cyn y gall apwyntiad deintyddol y GIG gael ei drefnu.

- Gellir cynnig gofal parhaus o fewn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ar gyfer cleifion ag anghenion cymhleth difrifol iawn a fyddai'n cael hi'n anodd cael mynediad at ofal sylfaenol. Byddai hyn yn cael ei egluro yn yr ohebiath i'r ymarferydd cyfeirio yn nodi y bydd y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn darparu'r holl ofal deintyddol parhaus.



Atodiad 1

Ffurflen gyfeirio ar gyfer cleifion o dan 18 oed

Atodiad 2

Ffurflen gyfeirio ar gyfer cleifion 18 oed a hŷn ac Unigolion Ifanc rhwng 18 a 25 oed sy'n Derbyn Gofal.

Atodiad 3

Canllawiau Cod Post Cleifion Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol BIPBC

